#FORTHEFULLTEAM
#FELUNTÎM

Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru
Royal College of Nursing Wales

PAPUR 1

# TIMAU NYRSIO CYMUNEDOL

SWYDDOGAETH NYRSYS ARDAL A NYRSYS PLANT CYMUNEDOL

# ARGYMHELLION

## UN

Wrth nodi cynlluniau ar gyfer gofal sylfaenol, cymunedol a chymdeithasol dylai Llywodraeth nesaf Cymru sicrhau bod nyrsio wrth wraidd unrhyw ddatblygiad strategol a deddfwriaeth.

## DAU

Dylai Llywodraeth Cymru ymestyn Adran 25B o Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 i wasanaethau nyrsio cymunedol.

## TRI

Dylai Llywodraeth nesaf Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) a GIG Cymru gydweithio i gynyddu nifer y nyrsys ardal sydd â Chymhwyster Ymarferydd Arbenigol a'r rhai sy'n gweithio tuag at radd meistr nyrsio cymunedol.

## PEDWAR

Dylai Llywodraeth Cymru fuddsoddi mewn technoleg gefnogol yn y llaw ar gyfer timau nyrsio cymunedol.

## PUMP

Dylai Llywodraeth Cymru, AaGIC a GIG Cymru gydweithio i gynyddu nifer y nyrsys plant cymunedol

# CYNNWYS

**Argymhellion** 2

**Cyflwyniad** 4

**Adran 1**
SWYDDOGAETH TIMAU NYRSIO CYMUNEDOL A'R WELEDIGAETH AR EU CYFER 5

Nyrsio sylfaenol, gofal cymdeithasol a chymunedol 5

Swyddogaeth nyrsio wrth ddylunio ac ariannu gwasanaethau 6

Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 7

**Adran 2**
SEILWAITH TG, DOGFENNAU A THECHNOLEG 8

Effaith COVID-19: TG 9

**Adran 3**
TIMAU AMLDDISGYBLAETHOL 10

**Adran 4**
Y GWEITHLU NYRSIO CYMUNEDOL 12

Morâl nyrsio cymunedol 12

Effaith COVID-19: gweithlu 13

Nyrsys ardal 14

Nyrsys plant cymunedol 15

Os hoffech ragor o wybodaeth cysylltwch â
**Policy&publicaffairs.wales@rcn.org.uk**

# CYFLWYNIAD

Yr adroddiad hwn fydd y cyntaf mewn cyfres o bapurau nyrsio cymunedol. Bydd yn edrych ar dimau nyrsio cymunedol a swyddogaethau penodol nyrsys ardal a nyrsys plant cymunedol. Bydd papurau eraill yn ymdrin â nyrsio iechyd meddwl ac anabledd dysgu.

Dros y degawd diwethaf yng Nghymru, mae byrddau iechyd wedi ad-drefnu gwasanaethau ysbytai acíwt, lleihau nifer y gwelyau, annog arosiadau byrrach i gleifion, ac wedi galluogi triniaethau a gofal mwy cymhleth i gael eu darparu gartref.

Yn *Cymru Iachach* (2018), fe wnaeth Llywodraeth Cymru amlinellu ei gweledigaeth hirdymor: i symud darpariaeth gofal iechyd o ysbytai sy'n defnyddio llawer o adnoddau i wasanaethau yn y gymuned. Mae hyn, wedi'i gyfuno â'r boblogaeth sy'n heneiddio a chyd-forbidrwydd cynyddol salwch, yn golygu bod gwasanaethau nyrsio cymunedol wedi bod o dan bwysau mawr.

Mae timau nyrsio cymunedol yn darparu gofal yn nes at gartref, yn hybu annibyniaeth ac yn rhoi athroniaeth gyfannol i ofal. Yn hytrach na chanolbwyntio ar ddull sy'n canolbwyntio ar dasg (e.e. newid dresin), mae gofal nyrsio cymunedol yn ymwneud ag amrywiaeth o weithgareddau sy'n asesu ac yn ymateb i holl sbectrwm anghenion pobl sy'n derbyn gofal yn eu cartrefi a'u cymunedau. Mae hyn yn cyd-fynd yn berffaith â dyheadau *Cymru Iachach*. Mae ymchwil yn dangos yn glir effaith niweidiol y gofal a ddarperir heb fewnbwn nyrsio.[1]

Gall timau nyrsio cymunedol ddarparu amrywiaeth o wasanaethau arbenigol, gan gynnwys iechyd meddwl, anabledd dysgu, gofal strôc, gofal dementia, gofal i bobl hŷn a gofal i blant. Arweinir timau nyrsio cymunedol gan nyrsys ardal neu nyrsys sy'n gweithio tuag at radd feistr nyrsio cymunedol ôl-gofrestru . Mae Nyrs Ardal yn deitl a roddir i'r rhai hynny sydd â Chymhwyster Ymarferydd Arbenigol, cymhwyster a gydnabyddir gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Mae'r cymhwyster yn cydnabod lefel fedrus iawn o wybodaeth ac ymarfer. Nyrsys Ardal yw uchafbwynt profiadol tîm nyrsio cymunedol, sy'n darparu goruchwyliaeth glinigol ac arweinyddiaeth i'r nyrsys cofrestredig a'r gweithwyr cymorth gofal iechyd.

Yn 2017, cyhoeddodd y Prif Swyddog Nyrsio Egwyddorion Staffio Nyrsys Ardal.[2] Mae'r wyth egwyddor staffio yn ceisio grymuso timau nyrsio ardal a chymunedol, a chydnabod cymhlethdod y gofal y mae ei angen yn y gymuned.

Yn ôl yr egwyddorion, dylai timau nyrsio cymunedol gael eu harwain gan nyrsys ardal â chymhwyster ymarferydd arbenigol cofnodadwy, neu radd nyrsio cymunedol ar ôl cofrestru a hyfforddiant arweinyddiaeth. Dylai fod gan bob tîm nyrsio cymunedol y gallu i gael o leiaf 15 awr o gymorth gweinyddol yr wythnos. Bydd y papur hwn yn rhoi trosolwg o'r heriau sy'n wynebu timau nyrsio cymunedol a bydd yn amlinellu pwysigrwydd Nyrsys Ardal a Nyrsys Plant Cymunedol. Bydd papurau eraill yn rhoi gwybodaeth ynglŷn â nyrsio iechyd meddwl ac anabledd dysgu.

ce

[1] Phelan, A et al., 2018, Challenges in care co-ordination: missed care in community nursing'. *International Journal of Integrated Care*, 18(S2).

[2] Prif Swyddog Nyrsio, 2017, *Egwyddorion Staffio Arweiniol Nyrsys Ardal Dros Dro*, egwyddorion-staffio-arweiniol-nyrsys-ardal-dros-dro.pdf (llyw.cymru) Gwelwyd 15 Mawrth 2021.

# ADRAN UN
## Swyddogaeth timau nyrsio cymunedol a'r weledigaeth ar eu cyfer

### Nyrsio sylfaenol, gofal cymdeithasol a chymunedol

Mae gofal sylfaenol yn cael ei grwpio a'i ddarparu gan 64 o glystyrau ledled Cymru. Yn ôl GIG Cymru, elfen graidd gofal sylfaenol yw ymarfer cyffredinol, er bod gofal sylfaenol hefyd yn cwmpasu llawer o wasanaethau iechyd eraill, gan gynnwys fferylliaeth, deintyddiaeth ac optometreg.[3] Mae gofal sylfaenol yn bwysig ar gyfer cyd-gysylltu'r gallu i gael gafael ar wasanaethau yn y gymuned leol ac mae'n gweithio'n agos gyda thimau nyrsio cymunedol a gwasanaethau cymdeithasol.

Term cyffredinol yw gofal cymdeithasol a ddefnyddir amlaf i ddisgrifio darparu gofal a chymorth i bobl hŷn, unigolion sy'n agored i niwed a'r rhai hynny sy'n byw gydag anableddau dysgu, er y gellir darparu gofal cymdeithasol i unrhyw un sydd ei angen. Mae'r term gofal cymdeithasol yn aml yn cael ei ddefnyddio gan lunwyr polisi wrth gyfeirio at ofal a ddarperir y tu allan i leoliad ysbyty.

Mae timau nyrsio cymunedol yn gweithio'n agos gyda'r gwasanaethau cymdeithasol i ddarparu arbenigedd nyrsio, hyrwyddo byw'n annibynnol a chynorthwyo'r gweithlu gofal cymdeithasol.

Mae'r gweithlu gofal cymdeithasol wedi wynebu heriau hanesyddol o ran cadw a recriwtio, ac mae hyn yn arbennig o wir am nyrsys cofrestredig yn y sector hwn.

> O adroddiad a gyhoeddwyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru, gwyddom mai dim ond 1,438 o staff nyrsio cofrestredig a gyflogir gan ddarparwyr gofal a gomisiynir yng Nghymru.[4]

Amlygodd pandemig COVID-19 pa mor fregus yw'r gweithlu gofal cymdeithasol, gan fod COVID-19 wedi rhoi her sylweddol i'r sector. Darparodd timau nyrsio cymunedol gymorth i'w cydweithwyr yn y sector gofal cymdeithasol, yn enwedig mewn cartrefi gofal, drwy gynnig gofal clinigol angenrheidiol ac, ar adegau, gwasanaethau lliniarol i breswylwyr mewn cartrefi gofal. Esbonnir hyn ymhellach yn Adran 4.

Mae natur gydgysylltiedig gofal sylfaenol, cymdeithasol a chymunedol yn glir, ond rhoddir llawer mwy o bwysigrwydd i ofal sylfaenol a chymdeithasol na gofal cymunedol. Mae perygl gwirioneddol bod cyfraniadau'r tîm nyrsio cymunedol – a hefyd grwpiau fel gweithwyr iechyd galwedigaethol, nyrsys ysgol ac ymwelwyr iechyd – yn dod yn anweledig i lunwyr polisïau ac nad ydynt yn cael eu gwerthfawrogi'n ddigonol.

Mae cynllunio strategol ar gyfer gofal cymunedol yn aml yn cael ei lethu gan gynllunio ar gyfer gofal sylfaenol. Mae'r diffyg cefnogaeth amlwg i dimau nyrsio cymunedol, a chydnabyddiaeth o'u pwysigrwydd, yn glir.

---

[3] GIG Cymru, 2014, *Ein cynllun ar gyfer gwasanaeth gofal sylfaenol i Gymru hyd at fis Mawrth 2018*, http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/986/Our%20Plan%20for%20Primary%20Care%20in%20Wales%20up%20to%20March%202018.pdf. Gwelwyd 12 Mawrth 2021.

[4] Gofal Cymdeithasol Cymru, 2020, *Gofal Cymdeithasol Cymru – proffil gweithlu 2019: Gwasanaethau Darparwyr Gofal a Gomisiynir*, https://gofalcymdeithasol.cymru/cms_assets/file-uploads/SCW_workforce_profile_2019_LA-Regulated-Services_final_cymV2.pdf. Gwelwyd 12 Mawrth 2021.

Ym mis Ionawr 2020, lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar y Papur Gwyn, *Ailgydbwyso gofal a chymorth*, a elwir fel arall yn *Gwella trefniadau gofal cymdeithasol a gwaith partneriaeth*. Nod yr ymgynghoriad hwn yw nodi fframwaith cenedlaethol ar gyfer gofal a gwella tryloywder y sector. Roedd RCN Cymru yn siomedig nad oedd nyrsio yn rhan o'r ymgynghoriad ond mae'n gobeithio gweld nyrsio yn cael sylw yn y papur gwyn pan gaiff ei gyflwyno fel bil.

Pan fydd Llywodraeth nesaf Cymru yn nodi ei gweledigaeth ar gyfer gofal sylfaenol, cymdeithasol a chymunedol, dylai ystyried pwysigrwydd timau nyrsio cymunedol a sicrhau nad yw nyrsio cymunedol yn cael ei anwybyddu. Byddai hyn yn gwella tryloywder a chyfathrebu rhwng gofal sylfaenol, cymdeithasol a chymunedol yn sylweddol.

## Swyddogaeth nyrsio wrth gynllunio ac ariannu gwasanaethau

Mae swyddogaeth y cyfarwyddwr nyrsio gweithredol wrth ddylunio gwasanaethau cymunedol yn gyfyngedig ac yn amrywio ledled Cymru. Mae gwasanaethau iechyd cymunedol wedi'u halinio yn cael eu cynnal yn wahanol iawn ledled Cymru ac mae hyn yn effeithio ar y ffordd y mae timau nyrsio cymunedol yn gweithio a'u llwyth achosion.

Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi bod â swyddogaeth ganolog wrth ddatblygu'r agenda integreiddio yng Nghymru; mae *Cymru Iachach* yn disgrifio'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fel rhai a fydd 'yn chwarae rhan gref yn goruchwylio ac yn cydlynu' wrth gyflawni newid.[5] O ystyried y swyddogaeth ganolog hon, hoffai RCN Cymru weld llawer mwy o dryloywder a chraffu ar eu gwaith. At hynny, dylai nyrsio gael ei gynrychioli ar y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol drwy gynnwys y cyfarwyddwr nyrsio gweithredol.

Mae angen cyfraniad nyrsio wrth ddylunio gwasanaethau ac mae angen bod yn glir sut a pham y caiff prosiectau eu hariannu. Os bydd prosiectau'n llwyddiannus dylid bod proses brif ffrydio.

Arweiniodd llu o fentrau ariannu at nifer fawr o wahanol dimau nyrsio arbenigol wedi'u lleoli yn y gymuned. Prin yw'r cysondeb ledled Cymru, ac mae rhai timau wedi'u hintegreiddio ag awdurdodau lleol, ond nid yw eraill. Mae gan rai wasanaeth ymateb cyflym o fewn y timau nyrsio cymunedol, ond mae gan eraill wasanaeth ar wahân megis ymateb cyflym, timau adnoddau cymunedol, timau asesu gofal yr henoed neu dimau eiddilwch. Mae gan rai timau arweinwyr cyflyrau cronig arbenigol, nid oes gan rai ohonynt unrhyw arweiniad arbenigol, ac mae gan rai timau y gallu i gael gafael ar arbenigwyr yn y gymuned ar gyfer cyflyrau cronig a gweithio mewn partneriaeth â nhw.

Mae llawer o'r mentrau newydd hyn yn rhagorol o ran canlyniadau pan edrychir ar eu gwaith ar ei ben ei hun ond nid yw'r darlun strategol ehangach ledled Cymru wedi'i archwilio, sy'n arwain at y problemau canlynol:

[5] Llywodraeth Cymru, 2018, *Cymru iachach: cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol* https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-04/cymru-iachach-ein-cynllun-iechyd-a-gofal-cymdeithasol.pdf Gwelwyd 12 Mawrth 2021.

**Mae'r newydd yn drech na'r llwyddiannus:** fel arfer caiff mentrau eu hariannu drwy broses gynnig. Mae'r broses gynnig ynddo'i hun yn defnyddio capasiti. Yn ogystal â hyn, nododd llawer o aelodau nyrsio cymunedol RCN Cymru na allant dderbyn cyllid mwyach ar gyfer gwaith prif-ffrwd a brofwyd ei fod yn llwyddiannus, dim ond ar gyfer cynlluniau newydd nas profwyd neu ar gyfer 'ail-enwi' yr hen fel newydd.
**Diffyg gwerthuso a phrif ffrydio:** os yw model gweithio penodol yn llwyddiannus yna dylid ei ariannu'n gynaliadwy.
**Diffyg cynllunio olyniaeth:** pan fydd nyrs arbenigol yn gadael, yn rhy aml ni ellir llenwi'r swydd neu caiff y swydd ei ddiddymu, gan arwain at golli gwasanaeth a cholli unrhyw welliant o ran effeithlonrwydd.
**Dat-sgilio nyrsio cymunedol:** gellir tynnu staff o dimau nyrsio cymunedol i dîm 'newydd', fel rhai eiddilwch. Os oes angen sgiliau fel meddyginiaethau IV ar y tîm newydd, gall y symud pobl a/neu ffyrdd o weithio dynnu o'r tîm nyrsio cymunedol y gallu a'r hyder i gyflawni'r gwasanaethau hyn. Yna gall timau nyrsio cymunedol ddod yn ddibynnol ar atgyfeiriadau i dimau arbenigol, gan danseilio eu gallu i weithio'n hyblyg ar y lefel sy'n gymesur ag angen.
Mae'r system asesu bresennol ar gyfer gofal iechyd parhaus yn rhoi baich mawr ar aelodau uchaf y timau nyrsio cymunedol.

Dywed aelodau RCN Cymru fod hyd at draean o'u hamser yn cael ei dreulio yn ail-adrodd asesiadau i wahaniaethu rhwng anghenion iechyd a gofal cymdeithasol ac i gadarnhau hyn. Mae'r claf yn aml yn cael ei ddal yn yr oedi hwn gan fod y timau'n cael eu llethu gan asesiadau sy'n cymryd llawer o amser.

Yn gyffredinol, mae RCN Cymru yn cael darlun gan ei aelodau o golli adnoddau'n sylweddol a dibrisio yn gyson eu sgiliau a'r budd a ddarperir gan wasanaeth nyrsio cymunedol gweithredol.

Dylai Llywodraeth Cymru nodi gweledigaeth newydd ar gyfer gofal cymunedol a ddylai gynnwys cydnabyddiaeth o'r angen am nyrsio. Rhaid i unrhyw weledigaeth newydd ar gyfer gofal cymunedol gynnwys cyfraniad y cyfarwyddwr nyrsio gweithredol a nyrsys cymunedol.

## Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016

Mae'n rhaid i unrhyw weledigaeth newydd ar gyfer timau nyrsio cymunedol gydnabod pwysigrwydd Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016.

Dylai Llywodraeth Cymru ymestyn Adran 25B o Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 i gynnwys gwasanaethau nyrsio cymunedol. Mae adran 25B yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau i gyfrifo a chynnal lefel y nyrsio yn seiliedig ar fethodoleg benodedig.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ymestyn y defnydd o Adran 25B o Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 i wasanaethau pediatrig cleifion mewnol erbyn mis Hydref 2021, ar ôl dechrau'r broses ymgynghori ym mis Medi 2020.

Mae gan Raglen Staff Nyrsio Cymru Gyfan, a gynhelir o fewn AaGIC, ffrwd waith bwrpasol ar gyfer ymestyn Adran 25B i nyrsio cymunedol. Mae'r ffrwd waith yn goruchwylio datblygiad offeryn Lefelau Gofal Cymru i'w ddefnyddio yn y gymuned. Bydd yr offeryn yn darparu'r fethodoleg benodol sy'n seiliedig ar dystiolaeth sydd ei hangen i gyfrifo lefel y staff nyrsio sydd ei hangen i sicrhau gofal diogel ac effeithiol yn y gymuned. Byddai hyn yn cynnwys asesiad cyson o graffter a dibyniaeth cleifion er mwyn caniatáu cyfrifo'r angen staffio yn gyson.

Dylid buddsoddi mwy yn y gefnogaeth i Raglen Staff Nyrsio Cymru Gyfan a nodi amserlen glir ar gyfer cynnydd ar y gwaith hwn. Mae RCN Cymru yn dweud y dylai Llywodraeth nesaf Cymru ymrwymo i ymestyn Adran 25B o Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 i nyrsio cymunedol.

# ADRAN DAU

## Seilwaith TG, dogfennau a thechnoleg

Dylai Llywodraeth Cymru fuddsoddi mewn technoleg gefnogol ar gyfer nyrsio cymunedol. Cred RCN Cymru y dylai'r defnydd o ddyfeisiau llaw gyda mynediad ar unwaith at wybodaeth am gleifion fod yn safonol ledled Cymru.

Mae gweithredu fel cyfryngwr rhwng gofal eilaidd, gofal sylfaenol a gwasanaethau cymdeithasol yn swyddogaeth graidd i nyrs gymunedol. Mae'n arbennig o annymunol, felly, fod nyrsio cymunedol wedi bod yng nghefn y ciw ers tro byd o ran buddsoddi mewn technoleg gyfathrebu fodern.

*"Bellach mae gennym system newydd i gofnodi'r llwyth achosion. Mae hyn yn cymryd hyd at 2 awr y dydd i gael y wybodaeth ddiweddaraf. Disgwylir i bob nyrs ddiweddaru'n ddyddiol – ond sut mae hyn yn bosibl gyda dim ond un cyfrifiadur i bob 10 nyrs?" (Aelod o RCN Cymru)*

Mae aelodau RCN Cymru yn dal i ddweud eu bod yn cario llawer iawn o waith papur o gwmpas ac yn gorfod treulio oriau lawer yn diweddaru cofnodion ar ddiwedd y dydd. Fel arfer, caiff dogfennau ysgrifenedig eu gadael yng nghartref y claf, ond gall hyn fod yn broblem os yw'r claf yn ei golli.

Cred RCN Cymru y dylai'r defnydd o ddyfeisiau llaw gyda mynediad ar unwaith at wybodaeth am gleifion fod yn safonol ledled Cymru.

Y tair system wybodaeth y mae ein haelodau wedi dweud eu bod yn eu defnyddio yw WCCIS, PARIS yng Nghaerdydd a'r Fro ac, ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, Malinko yn rhan o'i gynllun peilot Nyrsio Cymdogaeth (Buurtzorg).

> Gofynnodd RCN Cymru i'n haelodau nyrsio cymunedol am eu profiadau o gymorth TG. Dywedodd hanner yr ymatebwyr eu bod wedi defnyddio amrywiaeth o offer megis gliniaduron a ffonau, ond dywedodd yr hanner arall nad oedd ganddynt ddyfais llaw i'w defnyddio.[6]

Nid oes gan lawer o'r ffonau symudol a ddarperir gan gyflogwyr fynediad meddalwedd i'w calendr swyddfa nac at e-bost. Disgrifiodd aelodau RCN Cymru eu dyfais llaw delfrydol fel un a oedd â bywyd batri rhesymol; â meddalwedd sy'n caniatáu mynediad at galendr ac e-bost y swyddfa; a

[6] RCN Cymru, 2019, *Community and District Nurse Consultation response, y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon.*

*Fel rheolwr tîm o ddeg o nyrsys, rwy'n treulio llawer o amser yn llenwi ffurflenni ar y cyfrifiadur ar gyfer e-restru a'r cofnod staff electronig ond nid wyf wedi cael llawer o gymorth o ran hyfforddiant ar gyfer y systemau hyn. Mae'r cymorth TG yn wael iawn hefyd – yn aml nid yw ar gael pan fo angen. Rwy'n cael anhawster gwirioneddol i gael gafael ar gymorth – dydyn nhw ddim yn deall fy mhroblem a dydw i ddim yn deall yr hyn maen nhw'n ei ddweud wrthyf gan nad wyf wedi cael unrhyw help gyda sgiliau cyfrifiadurol, dim ond yr hyn yr wyf wedi'i ddysgu fy hun. Nid ydym wedi cael amser wedi'i ddiogelu ar gyfer hyfforddiant TG. (Aelod o RCN Cymru)*

chaniatáu ar gyfer atgyfeiriadau electronig. Roedd y gallu i dynnu lluniau o ansawdd da (ar gyfer gofal clwyfau) hefyd yn bwysig iawn, gan fod camerâu ar wahân yn feichus i'w cario ac yn gofyn am hyfforddiant ychwanegol.

Mewn byd lle mae'r sylfaen wybodaeth yn ehangu ac yn newid mor gyflym, gall TG a mynediad i'r dechnoleg gywir roi mynediad i staff at fyd o wybodaeth ac adnoddau: nid yn unig cofnodion cleifion, ond hefyd protocolau, canllawiau cyfredol a chanfyddiadau diweddaraf yr ymchwil. Mae hyn yn arbennig o werthfawr wrth ddarparu gofal yng nghartrefi pobl ac yn y gymuned.

Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ddangos ymrwymiad cyflym ac ar y cyd i fuddsoddi yn y defnydd o dechnoleg wrth ddarparu gofal yng Nghymru.

Er y bydd angen lefel uchel o graffu bob amser ar unrhyw wariant cyhoeddus ar eHealth a systemau TG newydd, mae GIG Cymru yn gwario llai na 2% o'i gyllid ar TG – sy'n llawer llai na'r ffigur a argymhellir, o 4%.[7] Argymhellodd Syr Derek Wanless 4% am y tro cyntaf yn 2003.

Mae hefyd yn hanfodol bod nyrsys yn ymwneud â'r broses o ddylunio cofnodion digidol a systemau meddalwedd i sicrhau eu bod yn ymarferol.

Lansiwyd Cofnod Gofal Nyrsio Cymru ym mis Chwefror 2020 mewn sawl bwrdd iechyd ledled Cymru.

Nod y prosiect yw trawsnewid dogfennau nyrsio drwy safoni ffurflenni a'u troi'n ddigidol.[8] Cyflogir arweinydd nyrsio clinigol ym mhob bwrdd iechyd ac mae'n arwain y gwaith o gyflwyno'r dogfennau newydd. Dylai Cofnod Gofal Nyrsio Cymru gwmpasu nyrsys cymunedol. Byddai Cofnod Gofal Nyrsio Cymru yn lleihau'n sylweddol faint o waith papur y mae nyrsys yn y gymuned yn ei gario o gwmpas a byddai'n gwella mynediad at gofnodion cleifion.

Fodd bynnag, mae angen mynd i'r afael â'r trafferthion TG presennol a chyflwyno dyfeisiau llaw ym maes nyrsio cymunedol er mwyn darparu mynediad cyfartal at Gofnod Gofal Nyrsio Cymru.

## Effaith COVID-19: TG

Amlygodd ton gyntaf pandemig COVID-19 yr angen am wasanaethau a ddarperir yn ddigidol o fewn gofal cymunedol. Oherwydd mesurau ymbellhau cymdeithasol a'r angen i amddiffyn cleifion a staff sy'n agored i niwed, cafodd y defnydd o ymgynghoriadau fideo ei gyflwyno'n gyflym ledled Cymru. [9]

> Hyd at fis Mehefin 2020, cynhaliwyd dros 1,500 o ymgynghoriadau fideo ym maes gofal sylfaenol a 3,000 mewn gofal eilaidd.[9]

[7] Archwilio Cymru, 2020, *Mae gan GIG Cymru weledigaeth glir o ran y cofnod cleifion electronig, ond mae angen rhagor o waith i gyflawni hyn*, https://www.wao.gov.uk/cy/news/mae-gan-gig-cymru-weledigaeth-glir-o-ran-y-cofnod-cleifion-electronig-ond-mae-angen-rhagor-o . Gwelwyd 12 Mawrth 2021.

[8] GIG Cymru, 2020, *Lansio Dogfennau Digidol Newydd*, https://gggc.gig.cymru/newyddion/newyddion-diweddaraf/lansio-dogfennau-nyrsio-newydd/. Gwelwyd 12 Mawrth 2021.

[9] Llywodraeth Cymru, 2020, *Gwasanaethau digidol sydd wedi cael eu cyflwyno i'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn ystod yr achosion o coronafeirws i barhau*, https://llyw.cymru/gwasanaethau-digidol-sydd-wedi-cael-eu-cyflwyno-ir-gwasanaeth-iechyd-gwladol-yn-ystod-yr-achosion-o Gwelwyd 12 Mawrth 2021.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi cynlluniau Cymunedau Digidol Cymru i ehangu eu cynllun benthyg dyfais i 1,100 o ddyfeisiau ar gyfer preswylwyr cartrefi gofal, a fyddai yn galluogi yymgyngoriadau fideo a rhyngweithio â'u hanwyliaid ar adegau pan na chaniatawyd ymweliadau corfforol.

Ym mis Mehefin 2020, roedd 220 o aelodau staff cartrefi gofal wedi derbyn hyfforddiant ar y system gan Cymunedau Digidol Cymru.[10]

Gwnaeth timau nyrsio cymunedol gynyddu'r defnydd o ymgynghoriadau fideo a chyfarfodydd tîm rhithwir i leihau rhyngweithiadau corfforol pan fo'n bosibl ac yn briodol.

Gyda'r cyhoeddiad bod gwasanaethau digidol a gyflwynwyd yn ystod pandemig COVID-19 yma i aros, mae'n bwysig bod y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys timau nyrsio cymunedol, yn cael cyfleoedd hyfforddi yn ystod oriau gwaith. Codwyd hyn yn y Grŵp Cyfeirio Gofal Sylfaenol a Chymunedol.

> Mae mynediad cyhoeddus at wasanaethau TG a band eang yn hanfodol ond dim ond 29% o gartrefi a busnesau Cymru a oedd yn gallu manteisio ar gyflymder band eang gwibgyswllt sefydlog ym mis Medi 2018.[11]

Mae hefyd yn bwysig deall nad yw pawb yn gallu defnyddio ymgynghoriad fideo oherwydd y seilwaith TG presennol yng Nghymru. Mae COVID-19 wedi tynnu sylw at y mynediad anhafal i TG ledled Cymru.

Mae hyn yn sylweddol is na chyfradd y DU o 49%. Felly, mae'n hanfodol nid yn unig bod gan dimau nyrsio cymunedol fynediad at wasanaethau a dyfeisiau TG sy'n gweithio , mae hefyd yn bwysig nad yw aelodau o'r cyhoedd dan anfantais oherwydd eu lleoliad neu ddiffyg dyfeisiau TG neu fand eang.

## ADRAN TRI
## Timau Amlddisgyblaethol

Fel y nodir yn Adran Un, mae perthynas glir, wedi'i chydblethu rhwng gofal sylfaenol a gofal cymunedol. O ganlyniad, mae amryw o weithwyr iechyd proffesiynol yn gweithio'n agos iawn gyda'i gilydd i ddarparu gofal yn nes at gartref.

Er y bydd Adran 4 yn canolbwyntio ar swyddogaeth benodol Nyrsys Ardal a Nyrsys Plant Cymunedol, mae'n bwysig cofio bod nifer o alwedigaethau yn cydweithio yn y gymuned. Mae hyn yn cynnwys: nyrsys seiciatrig cymunedol, ymwelwyr iechyd, meddygon teulu, parafeddygon, therapyddion galwedigaethol, ffisiotherapyddion, gweithwyr cymdeithasol a llawer mwy.

[10] Llywodraeth Cymru, 2020, *Gwasanaethau digidol sydd wedi cael eu cyflwyno i'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn ystod yr achosion o coronafeirws i barhau*, https://llyw.cymru/gwasanaethau-digidol-sydd-wedi-cael-eu-cyflwyno-ir-gwasanaeth-iechyd-gwladol-yn-ystod-yr-achosion-o Gwelwyd 12 Mawrth 2021.

[11] Miller, N. Greenwood, A: Miller Research, 2019, Gwerthusiad o Raglen Band Eang y Genhedlaeth Nesaf i Gymru 2015-18: Adroddiad Terfynol, https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-10/gwerthusiad-raglen-band-eang-y-genhedlaeth-nesaf-i-gymru-2015-18.pdf.
Gwelwyd 12 Mawrth 2021.

Roedd y Rhaglen Trawsnewid Gofal Sylfaenol yn cydnabod pwysigrwydd y Timau Amlddisgyblaethol o ran gwella mynediad i ofal sylfaenol a chymunedol.[12] Timau Amlddisgyblaethol yw uchafbwynt gweithio ar y cyd mewn lleoliadau sylfaenol a chymunedol.

Gall Timau Amlddisgyblaethol ddarparu gofal a chymorth o ansawdd uchel i gleifion drwy sicrhau bod gan gleifion lefel briodol o ofal ar yr adeg gywir yn y man cywir.

At hynny, mae Timau Amlddisgyblaethol yn darparu cyfleoedd i chwalu meddylfryd caeedig galwedigaethau a chaniatáu i nifer o alwedigaethau iechyd gydweithio i gyfathrebu, rhannu yr hyn y maent yn ei ddysgu, cefnogi ei gilydd a deall swyddogaethau aelodau eu tîm.

Mae'r defnydd o Dimau Amlddisgyblaethol fel dull o weithio ar y cyd yn sylweddol, a disgwylir i'r defnydd o Dimau Amlddisgyblaethol ehangu . Mae'n bwysig felly mynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu Timau Amlddisgyblaethol i wella'r broses o atgyfeirio cleifion i asiantaethau a gweithwyr proffesiynol eraill. Mae angen i'r gwelliant hwn fynd i'r afael â chyflymder yr atgyfeiriad ond hefyd i fod yn glir ynglŷn â'r gwahaniaeth rhwng asesu a gweithredu. Timau Amlddisgyblaeth sy'n gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd sy'n darparu'r gofal gorau – ond gweithwyr proffesiynol lluosog sy'n darparu gwahanol haenau o asesu ac atgyfeirio i'w gilydd ac osgoi gweithredu yw'r canlyniad gwaethaf posibl i'r claf ac mae'n gwastraffu arian cyhoeddus ac amser gwasanaeth gwerthfawr.

*Es i at glaf mewn cadair olwyn a oedd wedi cael ei ailgartrefu y diwrnod hwnnw. Roeddwn yn ymweld i wirio'r feddyginiaeth ar adeg ei rhyddhau a gofal croen. Dywedodd wrthyf na allai hi ddefnyddio'r toiled wrth drosglwyddo o'i chadair olwyn gan ei fod yn rhy isel. Gofynnais iddi pwy oedd wedi ymweld y diwrnod hwnnw – dywedodd fod llawer o staff o'r gwasanaethau cymdeithasol, gan gynnwys therapydd galwedigaethol, wedi ymweld â hi y diwrnod hwnnw. Fe es i i'n storfeydd i gasglu sedd toiled uchel a'i hasesu yn trosglwyddo yn ddiogel o un i'r llall. Pan edrychais i y diwrnod nesaf i gadarnhau pwy oedd wedi ymweld, dywedwyd wrthyf eu bod wedi gwneud cais i'r offer gael ei ddanfon yr wythnos ganlynol. Gofynnais pam na wnaethon nhw fynd i'n storfeydd lleol i gasglu offer ond chefais i ddim ateb." (Aelod o RCN Cymru)*

*Claf 92 oed yn byw gyda'i wraig. Mae gan y claf ddementia. Wedi disgyn dydd Gwener. Wedi disgyn dydd Sadwrn. Daeth y parafeddygon a gwneud yr holl arsylwadau. Penderfynwyd ei bod yn ddiogel i'r claf aros gartref. Neges i'r meddyg teulu ddydd Llun – adolygwch y claf. Roedd y claf wedi disgyn am y pedwerydd tro ddydd Llun. Adolygwyd y claf ddydd Mawrth – profion gwaed gan y meddyg teulu ac ymweliad gan Nyrs Ardal. Pan ymwelodd y Nyrs Ardal ar ôl y meddyg teulu, canfu [y Nyrs Ardal] y claf wedi yn hanner disgyn oddi ar y gadair gyda'i wraig yn ceisio ei gynorthwyo. Roedd ei wraig wedi bod yn ceisio ffonio y teulu i helpu ond doedd neb yn ateb. Ei wraig yn crio'n barhaus. Ei wraig dim ond yn ymdopi. Ffoniodd y Nyrs Ardal y meddyg teulu a dywedwyd wrthi am ffonio 999 er mwyn i'r claf gael ei dderbyn i ysbyty. Cysylltodd y Gwasanaethau Cymdeithasol ond nid oeddynt yn gallu darparu unrhyw beth a lle [i'r claf] ar y system i'w ddyrannu. Fy nghwestiwn i yw pam na wnaeth y parafeddygon asesu'r sefyllfa'n llawn ddydd Sadwrn a gwirio a oedd gwraig yn ymdopi? Daw popeth yn ôl at y meddyg teulu a'r Nyrs Ardal, pam na all gweithwyr proffesiynol eraill atgyfeirio at y Gwasanaethau Cymdeithasol? A pham na allant fod yn gweithio ar benwythnosau? (Aelod o RCN Cymru)*

[12] Gofal Sylfaenol Un, *Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol*, 2018, http://www.primarycareone.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1191/Strategic%20Programme%20for%20Primary%20Care.pdf. Gwelwyd 12 Mawrth 2021.

# ADRAN PEDWAR
## Y gweithlu nyrsio cymunedol

*Efallai eich bod yn credu yn sgil yr holl gwyno yr wyf yn ei wneud nad wyf yn mwynhau fy swydd ond rwyf wrth fy modd â'r her sy'n fy wynebu bob dydd. Ond gall fod yn flinedig pan nad oes gennym ni gefnogaeth gan reolwyr sy'n poeni'n gyson am oramser. Mae'r staff yn darparu gofal rhagorol ond ni ellir ei ddarparu mewn 7.5 awr oherwydd nifer y cleifion a chymhlethdod y llwyth achosion... Nid yw'r staff yn cael eu talu [yn ychwanegol] ond maent yn cael amser i ffwrdd yn ei le. Rydym ni'n teimlo nad ydym yn cael ein gwerthfawrogi'n ddigonol. (Aelod o RCN Cymru)*

Mae cynnydd wedi bod yn nifer y nyrsys cofrestredig a'r staff nyrsio sy'n gweithio yn y gymuned dros y pum mlynedd diwethaf. Mae RCN Cymru yn credu y dylai'r duedd hon barhau ond mae angen mwy o wybodaeth cyn y gellir asesu lefel yr angen yn y gymuned yn briodol. Nid yw nifer y bobl sy'n derbyn (neu sydd angen) gofal yn y gymuned a lefel eu hanghenion yn cael ei gasglu na'i gyhoeddi ar lefel genedlaethol, felly mae'n anodd iawn barnu lefel yr angen nyrsio sydd ei hangen ar lefel genedlaethol.[13]

Dylid nodi hefyd nad oes gan Gymru ddata canlyniadau ar gyfer cleifion sy'n derbyn gofal, felly mae'n anodd barnu pa fodelau gofal sydd fwyaf effeithiol o safbwynt cleifion ac o safbwynt effeithlonrwydd gydag arian cyhoeddus.

Cred RCN Cymru y dylai Llywodraeth Cymru wella'n gwybodaeth a gedir yn genedlaethol am ofal nyrsio mewn lleoliadau cymunedol y GIG er mwyn gwella'r broses o gynllunio'r gweithlu a gwasanaethau.

Bydd yr adran hon yn trafod morâl ym maes nyrsio cymunedol ac effaith COVID-19 ar y gweithlu nyrsio cymunedol cyfan, cyn symud ymlaen i drafod swyddi penodol y Nyrs Ardal a'r Nyrs Plant Gymunedol.

### Morâl nyrsio cymunedol

Mae aelodau RCN Cymru dan bwysau ac nid ydynt yn cael eu gwerthfawrogi'n ddigonol. Nid yw hyn yn amharu ar yr arfer gwych a ddangoswyd gan ein gweithwyr gofal iechyd proffesiynol. Mae'r adran hon yn cyfeirio at forâl ym maes nyrsio cymunedol cyn pandemig COVID-19. Mae effaith pandemig COVID-19 i'w gweld yn yr adran ganlynol.

Mae RCN Cymru yn galw ar i Lywodraeth Cymru a GIG Cymru fynd i'r afael â morâl gwael. Mae morâl cadarnhaol yn sicrhau recriwtio a chadw cynaliadwy, ac mae cydnabyddiaeth amlwg gan y tîm rheoli yn sicrhau bod gwerth y gwasanaeth yn cael ei ddeall yn llawn. Gellir defnyddio canlyniad cadarnhaol y sicrwydd hwn yn effeithiol er mwyn sicrhau'r gofal gorau posibl i gleifion.

Mae angen mynd i'r afael â'r mater hwn ar frys. Mae RCN Cymru yn cynnig bod Llywodraeth nesaf Cymru yn datblygu strategaeth gadw i annog gweithwyr nyrsio a gofal iechyd proffesiynol i aros yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol ac i aros yn y GIG. Dylai strategaeth gadw ganolbwyntio ar sicrhau mynediad at weithio hyblyg, sicrhau amodau gwaith diogel drwy ymestyn Adran 25B o Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016, a chynnydd teg ac ystyrlon mewn cyflogau.

[13] Thomas SJ, Wallace C, Jarvis P & Davis RE, 2016, *Mixed-methods study to develop a patient complexity assessment instrument for district nurses*, Nurse Researcher 23(4), 9-13.

## Effaith COVID-19: gweithlu

Mae COVID-19 wedi herio'r holl weithlu iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r gweithlu nyrsio wedi arwain arloesedd, wedi darparu gofal clinigol cymhleth ac wedi dangos arweiniad proffesiynol, ond maen nhw wedi blino.

Parhaodd nyrsio yn y gymuned i ddarparu gofal i rai o'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas drwy gydol pandemig COVID-19. Fodd bynnag, cafwyd achosion hefyd lle cafodd timau nyrsio cymunedol eu symud i ddyletswyddau newydd, gan leihau gwasanaethau arferol. Yn ystod ton gyntaf pandemig COVID-19, cafodd ffyrdd arferol o weithio eu hatal neu eu newid i sicrhau y gallai'r sector iechyd a gofal cymdeithasol ymateb i'r pandemig. Cafodd hyn effaith enfawr ar nyrsio cymunedol.

Camodd Nyrsys Ardal i'r adwy i gynorthwyo eu cydweithwyr mewn cartrefi gofal drwy ddarparu gofal clinigol angenrheidiol ac, ar adegau, gwasanaethau lliniarol i breswylwyr mewn cartrefi gofal. Heriwyd cartrefi gofal yn sylweddol yn ystod pandemig COVID-19. Roedd y gefnogaeth gan Nyrsys Ardal yn amhrisiadwy. Darparodd Nyrsys Ardal y cymorth hwn ar ben eu dyletswyddau presennol, gan gynnwys cefnogi nifer gynyddol o gleifion yn y gymuned, arwain timau cymunedol, a sicrhau eu bod yn gwybod beth oedd yr wybodaeth ddiweddaraf o ran canllawiau COVID-19 a chyngor ar atal a rheoli heintiau.

Cafodd rhai meysydd o ymarfer nyrsio, megis nyrsys ysgol ac ymwelwyr iechyd, eu symud i ddyletswyddau newydd ac ni oeddent yn gallu cyflawni eu swyddogaethau arferol. Yn ystod y cyfnod hwn, adroddwyd bod atgyfeiriadau diogelu ar gyfer plant ac oedolion sy'n agored i niwed wedi lleihau'n sylweddol. Cydnabu Julie Morgan AS, y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, y bu gostyngiad sylweddol yn nifer yr atgyfeiriadau diogelu i'r gwasanaethau cymdeithasol.

> Ar 5 Mai 2020, adroddodd fod un awdurdod lleol… wedi nodi gostyngiad o 27% o ran atgyfeiriadau diogelu o gymharu â'r adeg hon y llynedd.

Yn dilyn hyn, ar 18 Mai 2020, dywedodd cadeirydd y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol fod atgyfeiriadau i wasanaethau oedolion a cham-drin domestig a gofnodwyd hefyd wedi gostwng.[14]

Mae RCN Cymru wedi cael yr argraff bod nyrsys ysgol ac ymwelwyr iechyd wedi'u dychwelyd i'w swyddi arferol ers hynny, ac mae cyfrifoldebau diogelu wedi ailddechrau. Fodd bynnag, mae RCN Cymru yn pryderu, pe bai angen eu symud eto yn ystod tonnau COVID-19 ar hyn o bryd ac yn y dyfodol o bosibl, y gallem ni unwaith eto weld dirywiad yng ngallu gwasanaethau nyrsio cymunedol.

I ddarllen mwy am brofiad nyrsio pandemig COVID-19, cliciwch yma.

[14] Pwyllgor y Senedd plant, pobl ifanc ac addysg, 2020, https://record.senedd.wales/Committee/6096. Gwelwyd 12 Mawrth 2021.

## Nyrsys Ardal

Dylai Llywodraeth Cymru, AaGIC a GIG Cymru gydweithio i gynyddu nifer y nyrsys cymunedol ymarfer arbenigol, nyrsys practis uwch a nyrsys ymgynghorol ym mhob maes yng Nghymru. Mae'n rhaid i hyn gynnwys pwyslais ar Nyrsys Ardal.

Nyrsys Ardal, a nyrsys cofrestredig sydd â gradd feistr ôl-raddedig mewn nyrsio cymunedol a hyfforddiant arweinyddiaeth yw uchafbwynt profiadol tîm nyrsio cymunedol, sy'n darparu goruchwyliaeth glinigol ac arweinyddiaeth i dîm o nyrsys cofrestredig a gweithwyr cymorth gofal iechyd.

Yn 2017 cyhoeddodd y Prif Swyddog Nyrsio egwyddorion staffio Nyrsys Ardal.

Roedd yr wyth egwyddor yn nodi y dylai timau nyrsio cymunedol fod: dan arweiniad Nyrsys Ardal neu'r rhai â gradd feistr ôl-raddedig mewn nyrsio cymunedol, ar ffurf model clwstwr ac sy'n cynnwys 15 o staff neu 12 cyfwerth ag amser llawn. Mae'r egwyddorion yn nodi hefyd y dylai timau nyrsio cymunedol gael o leiaf 15 awr o gymorth gweinyddol yr wythnos.[15]

Mae RCN Cymru yn ymwybodol nad yw'r egwyddorion bob amser yn gyraeddadwy, mae timau cymunedol yn cael eu herio drwy recriwtio, cynllunio olyniaeth a chadw staff. At hynny, mae RCN Cymru yn gwybod nad yw bob amser yn wir bod timau nyrsio cymunedol yn cael 15 awr o gymorth gweinyddol yr wythnos


Byddai RCN Cymru yn croesawu gwybodaeth wedi'i chyhoeddi ynghylch a gyflawnwyd yr egwyddorion hyn, a pha fesurau y mae byrddau iechyd yn eu rhoi ar waith i sicrhau y gellir dilyn yr egwyddorion.

Yn ogystal â hyn, barn RCN Cymru yw y dylai pob nyrs gofrestredig sy'n gweithio yn y gymuned fod wedi cwblhau modiwl craidd ar hanfodion cymunedol ond, unwaith eto, nid yw hyn yn digwydd yn aml.

Mae Ffigur 1 yn dangos nifer y Nyrsys Ardal yng Nghymru. Cyhoeddir yr wybodaeth yn Ffigur 1 gan Ystadegau Cymru. Rhoddir y wybodaeth hon i Ystadegau Cymru gan fyrddau iechyd.

Mae Ffigur 1 yn dangos cynnydd ymddangosiadol yn nifer y Nyrsys Ardal yn 2016 a chynnydd pellach yn 2019, felly pam mae RCN Cymru wedi defnyddio llinell ddotiau?

Ff1. Nifer y Nyrsys Ardal yng Nghymru (Ystadegau Cymru, 2020)





| 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 844 | 744 | 745 | 647 | 574 | 461 | 669 | 705 | 666 | 667 | 774 |
| 750 | 693 | 666 | 584 | 516 | 412 | 581 | 610 | 581 | 591 | 690 |

[15] Prif Swyddog Nyrsio, 2017, Egwyddorion Staffio Arweiniol Nyrsys Ardal Dros Dro, https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-03/interim-district-nurse-guiding-staffing-principles.pdf. Gwelwyd 15 Mawrth 2021.

Yn syml, mae hyn oherwydd nad yw'r wybodaeth hon yn ddibynadwy. Mae nyrsys cofrestredig yn y gymuned yn cael eu cam-godio fel Nyrsys Ardal, er nad oes ganddynt y cymhwyster perthnasol. Yn bwysig, cydnabuwyd hyn yn niweddariad chwarterol Ystadegau Cymru (Medi 2019): "mae nifer o nyrsys wedi'u codio fel nyrsys ardal na ddylent fod".[16]

Yn niweddariad chwarterol Ystadegau Cymru cofnodwyd bod gwelliannau yn 2018 i'r cofnod staff electronig yn golygu ei fod yn bosibl i Ystadegau Cymru weld pa rai o'r rhai a gafodd eu codio fel Nyrsys Ardal sydd â'r cymhwyster perthnasol.

Ff2. Nifer y modiwlau a chyrsiau Nyrsys Ardal sydd ar gael yng Nghymru (Ystadegau Cymru, 2020)




Er bod ganddynt y gallu i nodi'r nyrsys sydd â'r cymwysterau perthnasol, a chydnabod presenoldeb data anghywir, nid yw Ystadegau Cymru wedi cyhoeddi yr wybodaeth gywir yn ei gyhoeddiadau ym mis Rhagfyr 2019, Mawrth 2020 a Mehefin 2020.

Comisiynir lleoedd addysg ar gyfer Nyrsys Ardal gan Lywodraeth Cymru. Mae modiwlau'n caniatáu dull hyblyg o ddysgu. Gellir gweld o ffigur 2 fod Llywodraeth Cymru wedi cynyddu nifer y lleoedd addysg a gomisiynwyd yn 2013 ond mae'r nifer hwn wedi bod yn sefydlog yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

O ystyried proffil oedran y Nyrsys Ardal a'r nifer gynyddol o bobl sy'n derbyn gofal yn y gymuned sydd â chyflyrau cymhleth, byddai RCN Cymru yn dadlau bod achos difrifol i'w wneud dros gynyddu'r ddarpariaeth hon.

## Nyrsys Plant Cymunedol


Dylai Llywodraeth Cymru, AaGIC a GIG Cymru gydweithio i gynyddu nifer y Nyrsys Plant Cymunedol.

Yn draddodiadol, cymharol ychydig o ran nifer a oedd wedi'u lleoli mewn ysbytai. Y dyddiau hyn gall plant ag anghenion iechyd cymhleth dderbyn llawer mwy o ofal gartref. Mae hyn yn golygu bod angen llawer mwy o nyrsys plant yn y gymuned.

Gofal a rheoli clwyfau, awyru, monitro pwysedd gwaed, meddyginiaeth IV, rheoli llinell, cymorth bwydo a gofal lliniarol yw rhai o'r gwasanaethau y mae nyrsys plant yn eu darparu, ynghyd ag addysg hanfodol ar gyfer gweithwyr gofal iechyd

[16] Llywodraeth Cymru, 2019, Diweddariad chwarterol Ystadegau Cymru Medi 2019, https://gov.wales/sites/default/files/inline-documents/2019-09/statistics-wales-quarterly-update-september-2019_0.pdf. Gwelwyd 12 Mawrth 2021.

Ff.3 Comisiynu cyn ac ar ôl cofrestru ar gyfer nyrsio plant, gan gynnwys nifer y nyrsys plant ym maes gwasanaethau cymunedol (AaGIC, Ystadegau Cymru, 2020)




*Sylwer: casglwyd yr wybodaeth am nyrsio plant cyn cofrestru, a'r wybodaeth am nyrsys plant ar ôl cofrestru gan AaGIC, casglwyd nifer y nyrsys plant – gwasanaethau cymunedol gan Ystadegau Cymru gan ddefnyddio data o fis Medi 2017, Medi 2018, Medi 2019 a Mehefin 2020*

proffesiynol eraill, gofalwyr a staff ysgol.

Mae Ffigur 3 yn amlygu nifer y modiwlau cyn ac ar ôl cofrestru ar gyfer nyrsys plant a gomisiynwyd a modiwlau ar ôl cofrestru. Mae'r ffigur yn dangos hefyd nifer y Nyrsys Plant Cymunedol, yn ôl Ystadegau Cymru.

Mae RCN Cymru yn falch o weld cynnydd mewn lleoedd nyrsio plant cyn cofrestru ar gyfer 2021/2022 ond mae'n annog Llywodraeth Cymru i fuddsoddi yn fwy yn y maes nyrsio hwn i sicrhau y gellir bodloni anghenion plant. At hynny, o'r llinell oren yn Ffigur 3 gellir gweld bod nifer y Nyrsys Plant Cymunedol wedi methu â chynyddu yn 2020/2021 ac, yn hytrach, wedi gostwng o 48.7 i 43 (WTE).

O wybodaeth a ddarparwyd gan Together for Short Lives, yr elusen ar gyfer gofal lliniarol plant[17] mae RCN Cymru yn ymwybodol bod diffyg sylweddol yn nifer y Nyrsys Plant Cymunedol y mae eu hangen i ateb y galw.

Ar hyn o bryd mae 43 (WTE) o Nyrsys Plant Cymunedol yng Nghymru. Gan ddefnyddio argymhelliad yr RCN sef bod o leiaf 20 o Nyrsys Plant Cymunedol WTE fesul ardal maint cyfartalog â phoblogaeth plant o 50,000, amcangyfrifodd Together For Short Lives fod angen 240 o Nyrsys Plant Cymunedol ychwanegol ar Gymru.[18]

Er mwyn ateb y galw, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ac AaGIC gynyddu nifer y nyrsys plant cyn cofrestru a gomisiynir ac mae'n rhaid iddynt gynyddu nifer y modiwlau Nyrsys Plant Cymunedol a'r modiwlau Nyrsys Plant Cymunedol ar frys.

[17] Together for Short Lives, Wales, https://www.togetherforshortlives.org.uk/changing-lives/speaking-up-for-children/policy-advocacy/9563-2/. Gwelwyd 27 Ebrill 2021.

[18] Together for Short Lives, Wales, https://www.togetherforshortlives.org.uk/changing-lives/speaking-up-for-children/policy-advocacy/9563-2/. Gwelwyd 27 Ebrill 2021.